# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 2il 2023 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (cadeirydd), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Dewi Pritchard, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Eifion Davies yn gallu bod yn bresennol cytunodd Maldwyn Jones i barhau yn y gadair.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Gwrych capel Glanrafon dal yn achosi pryder i yrrwyr – yn dilyn ymweliad a'r safle nid oedd Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn teimlo fod y gwrych yn effeithio gweleddedd.
ii) Ffordd yn suddo ger Bryn Melyn, Llandderfel – gwnaed gwaith clytwaith yno nôl ym mis Mawrth ac roedd bwriad i Ymghoriaeth Gwynedd drwsio'r wal.
iii) Gwrych gyferbyn a Bryn Tirion, Llandderfel angen ei dorri'n ôl -– cafodd y gwrych ei dorri gan yr Arolygwr Priffyrdd nol ym mis Mawrth.
iv) Cwynion pellach am gyflwr yr A494 rhwng Llanfor a Sarnau. Roedd rhan o'r ffordd ger Llanfor wedi cael ei ail wynebu yn ddiweddar. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau pryd y fyddan yn cychwyn ar y ffordd rhwng Cefnddwysarn a Sarnau.
v) Ceir yn cael difrod i'w olwynion oherwydd y graig sy'n dod allan i'r ffordd ger Crogen, Llandderfel – er bod y gwyn wedi cael ei anfon i'r Adran Traffig yng Nghaernarfon a'r clerc wedi anfon manylion pellach iddynt nid oedd unrhyw adborth wedi cael ei dderbyn. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â hwy gan fod car arall wedi cael difrod i'w olwyn yn ddiweddar.
vi) Blaenoriaeth graeanu ffyrdd Cyngor Gwynedd i raeanu ffyrdd lle'r oedd bobl a oedd yn derbyn gofal yn byw – derbyniwyd cadarnhad nad oedd rhaglen o'r fath yn cael ei weithredu gan y byddai hyn yn golygu llai o driniaeth ar y ffyrdd ail flaenoriaeth.
vii) Goryrru ar yr A494 – roedd ein cais diweddaraf i gael cyfyngiadau cyflymder i reoli'r or-yrru yng Nglanrafon, Cefnddwysarn, Llanfor ayyb wedi cael ei anfon ymlaen gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd i Lywodraeth Cymru.
viii) Cyflwr yr Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – cafwyd cadarnhad fod trefniadau mewn lle i'r Swyddog Cadwraeth Cyngor Gwynedd ymweld â'r adeilad. Nodwyd fod drws yr adeilad wedi cael ei adael ar agor yn ddiweddar ac roedd posib gweld fod cyflwr yr adeilad yn fregus iawn.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd – Cyfle i ddweud eich dweud. Gofynnwyd i'r clerc ei gwbwlhau.
ii) Rhybuddion cau ffordd dros – amrywiol.
iii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.

b) Parc Cenedlaethol.
i) Adroddiad adolygu draft Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
ii) Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) 2023-24.

c) Fferm Wynt Gaerwen.
i) Adroddiad adborth o ymgynghoriad anffurfiol Gaerwen a gynhaliwyd dros y cyfnod 15 Tachwedd i 6 Rhagfyr 2022.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

ch) Bute Energy.
i) Ymgysylltu cynnar ar gynigion Bute Energy ar gyfer Parc Ynni Moel Chwa.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
C23/0257/04/TC - Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon arfaethedig i addasu adeilad allanol presennol i ffurfio llety atodol i gynnwys ystafell gwesteion, ystafell gemau a sinema. Bodweni Hall, Llandderfel.
C23/0333/04/DT – Amnewid lolfa wydr presennol am estyniad ystafell haul newydd. Bro Wylfa, Llandderfel.
C23/0238/04/LL – Lleoli caban pren cartref symudol o fath eco i'w ddefnyddio fel annedd i rieni anabl hŷn ynghyd a gosod gwaith trin carthion. Bryn Derw, Glanrafon.
NP5/63/229F – Gosod canopi ger y lle chwarae. Caban Garn Bach Tryweryn. Frongoch.
NP5/72/218F – Newid defnydd yn rhannol ar gyfer cynllun ailstrwytho 23 o leiniau carafanau teithiol a gwersylla presennol. Parc Gwyliau Ty'n Gornel. Frongoch.
NP5/72/250D – Rhyddhau amodau Rhif 3 a 7 ynghlwm i ganiatâd cynllunio NP5/72/250B. Cronfa Ddŵr Llyn Celyn, Frongoch.
Cais am sylwadau ynglyn â'r bwriad i ddiweddaru mastiau ffôn symudol EE ger Ciltalgarth, Frongoch.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol i'r ceisiadau.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Derbyniadau.
Rhandal cyntaf y Praesept - £4,500.

b) The Pension Regulator
Cafwyd cadarnhad gan y clerc fod y camau ail gofrestru priodol wedi cael ei gwblhau.

c) Archwiliad Blynyddol & canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23.
Roedd trefniadau mewn lle i anfon y cyfrifon i Gyngor Gwynedd, yr archwilwyr mewnol. Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar hyn o bryd.

ch) Taliadau
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) AJG Community Schemes (yswiriant).
ii) Archwilio Cymru (archwilio cyfrifon 2021/22 a 2022/23).
iii) Cymeradwywyd y taliad a wnaed ar ddiwedd mis Mawrth i Defib Store am gabinet i deffib Llandderfel.

d) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Ganolfan Deulu Y Bala a chytunwyd i gyfrannu £100.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Twll yn y ffordd gerllaw Bwlchgarneddog, Bethel angen sylw.
ii) Rhywun wedi hitio'r wal sy'n rhedeg ar ochr yr afon, gyferbyn a'r capel yng Nglanrafon.
iii) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Adran Llwybrau Cyhoeddus i'w hysbysu fod dal angen datrys y problemau ar y llwybrau yn ardal Cefnddwysarn a Sarnau.
iv) Cwynion am or-yrru ym mhentref Llandderfel a Glanrafon – roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi bod yn trafod y cwynion yma gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 6ed yn am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..